

## GRASSLAND DEVELOPMENT CENTRE CANOLFAN DATBLYGU TIR GLAS

Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig  
Canolfan Datblygu Tir Glas, Gogerddan  
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB  
Ffôn: (01970) 823000/Ffacs: (01970) 828357  
E-bost: [hym@aber.ac.uk](mailto:hym@aber.ac.uk)

Institute of Biological, Environmental & Rural Sciences  
Grassland Development Centre, Gogerddan  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB  
Tel: (01970) 823000/Fax: (01970) 828357  
Email: [hym@aber.ac.uk](mailto:hym@aber.ac.uk)

### 205.01 DEWIS CNWD A MATH – SYSTEMAU ORGANIG

Mae systemau da byw organig yng Nghymru bron mor amrywiol â'u 'cymheiriad confensiynol', felly mae'n bosibl na fydd cnwd neu fath sy'n addas ar gyfer un system yn addas ar gyfer un arall. Mae pedair system sylfaenol; ffermydd glaswelltir, tir pori parhaol â rhywfaint o wndwnnydd wedi'u hailhadu, neu heb eu hailhadu, glaswelltir gyda chnydau grawn, a glaswelltir â chnydio cymysg. Beth bynnag yw'r cnwd, yr allwedd i'w reoli'n organig yw rhoi sylw i iechyd y pridd, adeiladu ffrwythlonder, codlysiau, defnyddio gwrteithiau a slyri, rheoli chwyn, plâu, afiechyd, cynaeafu a defnydd llawn o'r cnwd.

#### PA GNWD? – dewiswch yn ôl cynnyrch deunydd sych ac ynni a phrotein: dangosir gwerthoedd nodweddiadol

| Cnwd                        | Ynni (MJ/kgDM) | Cynhyrchiant wedi Sefydlu (t DM/ha) | Cynhyrchiant Defnyddiadwy (tDM/ha) | Cynhyrchiant Ynni (GJ/ha) | Cynhyrchiant Protein (kg/ha) |
|-----------------------------|----------------|-------------------------------------|------------------------------------|---------------------------|------------------------------|
| Betys porthiant             | 12.5           | 11                                  | 9.0                                | 113                       | 567                          |
| Cêl                         | 11.8           | 7                                   | 5.0                                | 59                        | 750                          |
| Maip sofr                   | 11.6           | 3                                   | 1.8                                | 21                        | 180                          |
| Indrawn porthiant           | 11             | 11                                  | 9.4                                | 103                       | 846                          |
| PRG/meillion gwyn           | 10.8           | 10                                  | 8.2                                | 82                        | 1312                         |
| IRG/meillion coch           | 10.6           | 11                                  | 8.8                                | 93                        | 1408                         |
| Gwenith gaeaf (cnwd porthi) | 9.5            | 10                                  | 8.3                                | 79                        | 830                          |
| Lucerne                     | 9.4            | 10                                  | 8.0                                | 75                        | 1600                         |

Cost cynhyrchu: beth fydd cost pob uned ynni neu brotein?

Cost dwysfwyd organig: a yw'n gallu disodli rhywfaint o'r lefel ynni neu brotein uchel sydd ei hangen yn y dwysfwyd porthi (e.e. pŷs, cnydau grawn neu fetys porthiant).

Hwsmonaeth: a yw'r arbenigedd, yr offer a'r ffrwythlonder pridd gennych i dyfu'r cnwd?

Rhywyddineb defnyddio: e.e. a ellir defnyddio twf cynnar rhygwellt Eidalaid yn effeithiol, a yw'r tir yn rhy drwm i bori maip sofr mewn tywydd gwlyb?

Effaith ar y cnwd nesaf: a oes angen nitrogen arno neu a yw'n creu nitrogen, a yw'n gwreiddio'n ddwfn neu'n isel?

Iechyd anifeiliaid: a yw'n cynnig pori glân (e.e. tir newydd ei ailhadu) cynnwys llawer o fineralau (e.e. sicori)

Cynllun cymorth: a yw'n gymwys ar gyfer y Cynllun Taliadau Arwynebedd Tir Âr, a ellir ei gynnwys mewn neilltir?

Cynllun cylchdroi: sut mae'n cyd-fynd â'r cynllun cylchdroi?

#### PORFEYDD

Mae'r porfeydd ar restrau NIAB yn cael eu gwerthuso yn ôl ystod o nodweddion. Dewiswch fathau yn ôl anghenion, gan ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael. Dyddiadau tywysennu:

Cynnar Dechrau-canol Mai

Canolradd Diwedd Mai

Hwyr Dechrau-canol Mehefin

Mae'r mathau sy'n tywysennu'n hwyrach yn cael eu cysylltu â'r math deiliog, mwy parhaol.

Mae'r mathau Tetraploid yn cynhyrchu mwy adeg torri'r silwair cyntaf, maent yn cynnwys llawer o siwgr a gwlybaniaeth, ond mae eu twf yn fwy 'agored' na'r mathau diploid.

Mae'r mathau Diploid yn addas ar gyfer amodau gwlyb, ac maent yn barhaol. Peidiwch â chynnwys mwy na 50% o fathau tetraploid mewn cymysgeddau o hadau tymor canolig/hir.

Rhygwellt parhaol (PRG)

Yn cael ei hau'n eang mewn gwndwnnydd tymor byr a hir dymor. Gallu addasu, ymateb i wlybaniaeth a ffrwythlonder pridd, gwerth maeth uchel. Mathau newydd â chynnwys siwgr uchel (e.e. AberDart).

#### Rhygwellt Eidalaid (IRG)

Sefydlu'n gryf a thwf cynnar, gyda chynhyrchiant ac ansawdd uchel yn y flwyddyn gyntaf. Mae rhan fwyaf y mathau'n tywysennu canol-diwedd Mai. Torrwch yn aml, a'i bori'n dynn er mwyn cynnal ei ansawdd. Ymateb i ffrwythlonder. Gall rhwd brown fod yn broblem, yn enwedig mewn tymhorau cynhesach ac mae rhywfaint o wydnwch amrywiadol ar gael. Defnyddiwch mewn gwndwnnydd 1-2 flynedd

#### Rhygwellt hybrid (HRG)

Mae rhygwellt hybrid yn gyfuniad o IRG a PRG. Maent yn fwy parhaol a chanddynt ansawdd gwell yng nghanol y tymor ac yn hwyr yn y tymor na IRG gan gollu rhywfaint o dwf cynnar a chyfanswm cynhyrchiant. Mae rhai o'r mathau hybrid mwy newydd yn cadw mwy o'r cymeriad PRG o ran parhad a deiliogrwydd.

